

Amddiffyn a Diogelu Pobl Hŷn



Pecyn Gwybodaeth Covid-19

**#CaelHelpCadw'nDdiogel
#NidYdychArEichPenEichHun**

Gweithio gyda'n gilydd i amddiffyn a diogelu pobl hŷn yng Nghymru



ADSS Cymru
Leading Social Services in Wales
Yn arwain Gwasanaethau
Cymdeithasol yng Nghymru



Heddlu Police
DYFED-POWYS



Heddlu
Gwent
Police



National Independent
Safeguarding Board Wales
Bwrdd Diogelu Gwladol
Annibynnol Cymru



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES
Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Coleg Nysio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales



safeguarding
network



Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Renr



Wales Heads of
Trading Standards
Improving Trading Standards in Wales
Pennaethiaid Safonau Masnach Cymru Yn Gwella Safonau Masnach Yng Nghymru



Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



WLGA • CLILC



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

#CaelHelpCadw'nDdiogel

#NidYdychArEichPenEichHun

Cynnwys

Cyflwyniad	04
-------------------	-----------

Effaith Covid-19	05
-------------------------	-----------

Diogelu Pobl Hŷn rhag Camdriniaeth	06
---	-----------

Cydnabod arwyddion camdriniaeth	06
---------------------------------	----

Cael cymorth a chefnogaeth	07
----------------------------	----

Diogelu pobl hŷn rhag troseddau, twyll a sgamiau	09
---	-----------

Beth i edrych amdano	09
----------------------	----

Stopio. Herio. Diogelu	10
------------------------	----

Ble i gael cymorth a chefnogaeth	11
----------------------------------	----

Y wybodaeth sydd ei hangen arnoch	12
-----------------------------------	----

Cysylltiadau Defnyddiol	13
--------------------------------	-----------

Aelodau Grwpiau Gweithredu	13
----------------------------	----

Cysylltiadau Awdurdodau Lleol	15
-------------------------------	----

Cyflwyniad

Mae'r pandemig COVID-19 wedi achosi pryder a tharfu'n sylweddol ar bob un ohonom. Ond i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu'n wynebu camdriniaeth, a'r rhai sydd wedi dioddef trosedd neu wedi'u targedu gan droseddwr, mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn anodd tu hwnt. Mae nifer o bobl hŷn ar draws Cymru wedi teimlo ofn, yn ynysig ac yn unig.

Dyna pam rydym wedi dod at ein gilydd gyda neges syml ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru: Nid ydych ar eich pen eich hun. Rydym yma i chi a gallwn eich helpu a'ch cefnogi.

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod gan bobl hŷn a allai fod mewn perygl, a'r rhai sy'n gofalu ac yn poeni amdanynt, y wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â'r help a'r gefnogaeth sydd ar gael. Rydym hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn ehangach am y rôl y gall pob un ohonom ei chwarae wrth helpu i amddiffyn pobl hŷn.

Mae'r pecyn hwn yn cynnig amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol am gadw pobl hŷn yn ddiogel - gan gynnwys y ffyrdd y gallwn adnabod pobl hŷn a allai fod mewn perygl, a manylion cyswllt sefydliadau allweddol sy'n gallu cynnig cymorth a chefnogaeth hanfodol.

Diolch am eich cefnogaeth wrth amddiffyn a diogelu pobl hŷn ledled Cymru.

Effaith Covid-19

Rydym yn gwybod bod y pandemig Covid-19 wedi bod yn gyfnod hynod o anodd i bobl hŷn sy'n byw gyda chamdriniaeth, a bod y mesurau cyfyngiadau symud sydd ar waith hefyd yn creu sefyllfaoedd lle gallai pobl hŷn fod mewn mwy o berygl o gamdriniaeth.

O dan y mesurau presennol, mae nifer o'r cyfleoedd arferol i adnabod camdriniaeth - trwy gyswllt â gweithwyr proffesiynol mewn apwyntiadau arferol, er enghraifft - wedi'u colli, sy'n golygu y gallai pobl hŷn golli allan ar gymorth a chefnogaeth a allai achub eu bywydau.

Gall pob un ohonom chwarae ein rhan wrth amddiffyn pobl hŷn ac mae'n hanfodol ein bod yn cadw llygad am yr arwyddion y gallai person hŷn fod yn cael eu cam-drin neu mewn perygl o gael eu cam-drin.

Er gwaetha'r tarfu, mae cymorth a chefnogaeth dal ar gael. Mae timau diogelu a gwasanaethau cymorth yn dal i weithio, yn ymchwilio i bryderon ac yn sicrhau bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw i fod yn ddiogel.

Dylai unrhyw un sydd â phryderon am berson hŷn gysylltu â thîm diogelu eu cyngor lleol (manylion cyswllt ar dudalen 15) neu'r heddlu lleol ar 101 (mewn argyfwng, ffoniwch 999).

Mae manylion sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth, cyngor a chefnogaeth i bobl sy'n wynebu camdriniaeth neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu'r rheini sydd â phryderon am rywun, hefyd wedi'u cynnwys isod (tudalen 7).

Yn ogystal, rydym yn gwybod bod troseddwyd yn defnyddio'r sefyllfa bresennol i ecsbloetio a thwylo pobl, a bod nifer o droseddwyd yn targedu pobl hŷn yn benodol oherwydd eu bod yn ymddangos yn fregus.

Rydym hefyd yn gweld troseddau a sgamiau ar-lein sy'n gysylltiedig â Covid-19, a gyda mwy ohonom nag erioed yn defnyddio'r rhyngwrdd i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, i siopa ac i ddifyrru ein hunain, mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein hunain yn ddiogel ar-lein.

Isod, rydym wedi cynnwys gwybodaeth am sut gall bobl hŷn ddiogelu eu hunain yn erbyn troseddwyd a'r pethau i edrych amdanynt (tudalen 9), a manylion sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth a chefnogaeth (tudalen 11).

Diogelu Pobl Hŷn rhag Camdriniaeth

Cydnabod arwyddion camdriniaeth

Gall cam-drin domestig gynnwys trais, camdriniaeth seicolegol, rhywiol, ariannol ac emosiynol, a phatrymau ymddygiad cymhellol neu reolaeth. Gall bygythiadau i aelodau eraill o'r teulu neu anifeiliaid anwes hefyd fod yn fath o gamdriniaeth.

Er bod ein cysylltiad ag eraill wedi'i gyfyngu yn ystod y cyfnod hwn, mae yna arwyddion y gallwn ni i gyd edrych amdany'n nhw a allai ddangos bod rhywun yn profi camdriniaeth:

- **Arwyddion corfforol, fel cleisio neu anafiadau anesboniadwy**
- **Newidiadau mewn ymddygiad**
- **Encilio**
- **Peidio â gadael y tŷ (hyd yn oed i ymarfer corff yn ddyddiol)**
- **Newidiadau yn y cyswllt â theulu neu ffrindiau**
- **Newidiadau yn y ffordd y mae rhywun yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol**

Os ydych yn poeni bod person hŷn yn wynebu camdriniaeth neu mewn perygl o gael eu cam-drin, cysylltwch â thîm diogelu eich cyngor (gweler tudalen 15) neu galwch eich heddlu lleol ar 101 (mewn argyfwng ffoniwch 999).

999 Ateb Tawel

Mewn argyfwng, mae'n hanfodol cysylltu â'r heddlu i gael help. Ond mewn rhai achosion, gallai siarad â gweithredwr 999 roi unigolyn mewn hyd yn oed mwy o berygl.

Mewn sefyllfaoedd lle mae rhywun angen help ond yn methu siarad, dylent ffonio 999 a gwasgu 5 5 pan fydd y gweithredwr yn eu hannog i wneud hynny. Bydd help yn cael ei anfon i'w lleoliad.

Cael cymorth a chefnogaeth

Rydym yn gwybod y gall fod yn anodd dros ben ceisio dod o hyd i gymorth os ydych chi'n profi camdriniaeth neu mewn perygl o gael eich cam-drin, ond mae'n bwysig eich bod chi'n cael help os bydd ei angen arnoch chi. Does dim angen dioddef yn dawel - mae help ar gael i'ch amddiffyn a'ch cefnogi.

Hourglass Cymru (Action on Elder Abuse Cymru gynt)

Mae Llinell Gymorth Hourglass Cymru yn cynnig cefnogaeth benodol i bobl hŷn sy'n gallu cynnig gwybodaeth, cymorth a chefnogaeth, p'un a ydych chi'n wynebu camdriniaeth neu'n poeni am rywun arall.

0808 808 8141

<https://www.wearehourglass.cymru/wales>

Ymgyrch 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre' // Byw Heb Ofn

Bwriad ymgyrch Llywodraeth Cymru 'Ddylai neb fod yn ofnus gartre' yw rhoi gwybod i'r rhai sydd mewn perygl o gam-drin domestig, trais rhywiol a rheolaeth gymhellol fod help ar gael o hyd 24 awr y dydd, bob dydd, drwy Byw Heb Ofn, a chyrraedd unrhyw un sy'n dal mewn sefyllfa i helpu'r rhai a allai fod mewn mwy o berygl.

Gallwch gael gwybod mwy am yr ymgyrch a chael gafael ar adnoddau a dysgu ar-lein fan hyn:

<https://gov.wales/live-fear-free/staying-safe-during-coronavirus-emergency>

Mae Byw Heb Ofn yn cynnig cymorth a chefnogaeth 24 awr i bobl sy'n wynebu camdriniaeth a'r rheini sy'n poeni am eraill.

0808 8010 800

<https://gov.wales/live-fear-free>

Hyfforddiant i Weithwyr Allweddol a Gwirfoddolwyr

Mae menter Dewis Prifysgol Aberystwyth wedi datblygu cwrs hyfforddi ar-lein newydd am gam-drin domestig i sicrhau bod gan weithwyr allweddol a gwirfoddolwyr y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnyn nhw i adnabod camdriniaeth bosibl a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw.

Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n benodol ar bobl hŷn a'u hanghenion, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd gan gynnwys y ffyrdd y gall pobl hŷn wynebu cam-drin domestig, y rhwystrau a allai atal person hŷn rhag chwilio am gymorth ac effaith camdriniaeth ar iechyd meddwl a llesiant pobl.

Byddem yn annog unrhyw un a allai ddod i gysylltiad â pherson hŷn drwy eu gwaith neu eu rôl wirfoddoli i gwblhau hyfforddiant Dewis.

Cysylltwch â **choice@aber.ac.uk** am fwy o wybodaeth.

Diogelu Pobl Hŷn rhag troseddau, twyll a sgamiau

Beth i edrych amdano

Rydym yn gwybod bod troseddwyr yn defnyddio'r sefyllfa bresennol i dwyllo ac i ecsbloetio pobl, a bod pobl hŷn yn cael eu targedu'n benodol gan droseddwyr oherwydd eu bod yn ymddangos yn fregus.

Ond drwy wybod beth i edrych amdano, gallwn amddiffyn ein hunain ac eraill rhag dod yn ddioddefwyr troseddau.

Mae troseddwyr yn arbenigwyr ar ddynwared pobl, sefydliadau a'r heddlu. Gallant gysylltu â chi dros y ffôn, e-bost, neges destun, ar gyfryngau cymdeithasol neu'n bersonol. Byddant yn ceisio eich twyllo i rannu eich arian, gwybodaeth bersonol, neu brynu nwyddau neu wasanaethau sydd ddim yn bodoli.

Mae nifer o sgamiau ac achosion o dwyll wedi'u cynllunio i'ch cael chi i agor neu glicio ar ddolenni mewn e-byst, mynd i wefannau ffug, neu ymateb i negeseuon testun, lle gofynnir i chi roi manylion personol neu ariannol y bydd y troseddwyr yn eu defnyddio i gymryd eich arian.

Rydym wedi tynnu sylw at rai o'r sgamiau rydym yn ymwybodol ohonyn nhw sy'n gysylltiedig â Covid-19 isod:

- Sgamiau siopa ar-lein lle mae pobl wedi archebu masgiau wyneb diogelwch, hylif diheintio dwylo, offer profi Covid-19, a chynnyrch eraill, sydd byth yn cyrraedd.
- Gofyn am rodd ariannol i fynd i'r afael â Covid-19, gan amlaf ar e-bost neu'n esgus bod o elusen sy'n helpu pobl fregus yn ystod yr argyfwng.
- Dioddefwyr sy'n derbyn galwad gyda neges awtomataidd yn honni eu bod o'r llywodraeth, yn dweud bod angen i bob unigolyn bellach wisgo masg wyneb pan fyddant yn gadael eu cartrefi. Mae'r neges yn gofyn i'r dioddefwr wasgu 1 i brynu masg.
- Mae negeseuon testun yn cael eu hanfon at dderbynwyr, yn honni eu bod o Gyllid a Thollau EM, yn cynghori y gallan nhw gael ad-daliad treth o hyd at £400. Mae'r neges destun hon yn cynnwys dolen i wefan ffug y llywodraeth

Ile gall y derbynnydd benderfynu a yw'n gymwys i gael ad-daliad.

- Mae e-byst sy'n honni eu bod wrth Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn rhoi gwybod i dderbynwyr eu bod wedi'u dewis i dderbyn grant o \$15,000 yn ystod yr argyfwng. Mae cyfeiriad e-bost dilynol yn cael ei roi i dderbynwyr i geisio cael manylion pellach.
- Adroddiadau am e-byst sy'n honni eu bod yn dod o Virgin Media, yn rhoi gwybod i'r derbynwyr bod eu bil yn barod i'w weld. Mae'r e-byst yn cynnwys gwybodaeth am sut mae Virgin Media yn ymateb i'r argyfwng Covid-19. Mae swm y bil yn cyfateb yn aml i £60.78.

Stopio. Herio. Diogelu

Gall pob un ohonom weithredu i amddiffyn ein hunain rhag troseddau a sgamiau. Os cysylltir â chi'n annisgwyl, cofiwch:

- **Stopio:** Gall cymryd eiliad i feddwl cyn i chi rannu eich arian neu wybodaeth eich cadw'n ddiogel.
- **Herio:** A allai fod yn ffug? Mae'n iawn i wrthod neu anwybyddu unrhyw geisiadau. Dim ond troseddwyd fydd yn ceisio eich rhuthro neu eich cynhyrfu chi.
- **Diogelu:** Cysylltwch â'ch banc ar unwaith os ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi dioddef sgam a rhowch wybod i Action Fraud (manyion isod).

Ni fydd yr heddlu, na'ch banc, byth yn gofyn i chi dynnu arian na'i drosglwyddo i gyfrif gwahanol. Ni fyddan nhw byth yn gofyn i chi ddatgelu eich cyfrinair bancio llawn na'ch PIN.

Peidiwch â chlicio ar ddolenni neu atodiadau mewn negeseuon testun neu e-byst annisgwyl neu amheus.

Gallwch gadarnhau bod ceisiadau yn ddilys drwy ddefnyddio rhif neu gyfeiriad e-bost hysbys i gysylltu â sefydliadau yn uniongyrchol.

Gallwch hefyd riportio negeseuon testun amheus drwy anfon y neges wreiddiol at 7726, sy'n sillafu SPAM ar eich bysellfwrdd.

Ble i gael cymorth a chefnogaeth

Ni ddylech deimlo cywilydd ynglŷn â rhoi gwybod am drosedd lle cawsoch eich twyllo - mae twyllwyr yn glyfar a gall sgamiau ddigwydd i unrhyw un.

Os cawsoch eich twyllo, mae yna sefydliadau y dylech roi gwybod iddyn nhw am y sgam, sy'n helpu i olrhain ac atal twyllwyr ac yn atal pobl eraill rhag cael eu twyllo.

Cysylltwch â'r Heddlu: Dylech gysylltu â'r heddlu ar unwaith drwy ffonio 101 os yw'r twyllwr yn eich ardal chi, neu os ydych wedi trosglwyddo arian yn ystod y 24 awr ddiwethaf. Os ydych chi'n teimlo o dan fygythiad neu'n anniogel, dylech ffonio 999.

Cysylltwch ag Action Fraud: Dylech roi gwybod am bob math o sgam i Action Fraud, canolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll.

Gall Action Fraud gael y Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll Genedlaethol i ymchwilio i sgamiau a bydd hefyd yn rhoi cyfeirnod trosedd i chi, a all fod yn ddefnyddiol os bydd angen i chi ddweud wrth eich banc eich bod wedi cael eich twyllo.

0300 123 2040

Ffôn Testun: 0300 123 2050

<https://www.actionfraud.police.uk/reporting-fraud-and-cyber-crime>

Cysylltwch â Cyngor ar Bopeth: Gallwch hefyd roi gwybod i Cyngor ar Bopeth. Maen nhw'n casglu gwybodaeth am sgamiau sy'n cael eu rhannu â Safonau Masnach sy'n ymchwilio a, lle bo'n bosibl, yn erlyn twyllwyr.

03444 77 20 20

Gallwch roi gwybod am sgam ar-lein fan hyn: **<https://bit.ly/2AzKqHf>**

Gallwch roi gwybod am sgam sydd ddim ar-lein (e.g. ar garreg y drws, sgam ar y ffôn) fan hyn: **<https://www.citizensadvice.org.uk/consumer/get-more-help/if-you-need-more-help-about-a-consumer-issue/>**

Y wybodaeth sydd ei hangen arnoch

Action Fraud

Mae gan Action Fraud amrywiaeth eang o wybodaeth ac adnoddau ynglŷn â'r hyn i edrych amdano, gan gynnwys A - Z am dwyll a gwybodaeth ar sut gallwn ddiogelu ein hunain.

Ffôn: 0300 123 2040

<https://www.actionfraud.police.uk/>

Friends Against Scams

Menter gan Dîm Sgamiau'r Safonau Masnach Cenedlaethol yw Friends Against Scams sy'n anelu at amddiffyn ac atal pobl rhag dioddef sgamiau drwy rymuso pobl i sefyll yn gadarn yn erbyn sgamiau.

Drwy gwblhau sesiynau dysgu ar-lein Friends Against Scams, gall unrhyw un ddysgu am y gwahanol fathau o sgamiau a sut i adnabod a chefnogi dioddefwr.

Gyda mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth, gall pobl wneud sgamiau yn rhan o'u sgwrs bob dydd gyda'u teuluoedd, ffrindiau a chymdogion, a fydd yn eu galluogi i amddiffyn eu hunain ac eraill.

<https://www.friendsagainstscams.org.uk/>

Get Safe Online

Mae Get Safe Online yn cynnig cyngor ymarferol ar sut i amddiffyn eich hun, eich cyfrifiaduron a'ch dyfeisiau symudol rhag twyll, dwyn hunaniaeth, firsau a nifer o broblemau eraill ar-lein.

Ewch i wefan Get Safe Online i gael gwybodaeth ac arweiniad ar amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn eich helpu i ddefnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel, yn ogystal ag awgrymiadau defnyddiol a diweddariadau am y sgamiau ar-lein diweddaraf i gadw golwg arnyn nhw, gan gynnwys sgamiau sy'n gysylltiedig â Covid-19.

www.getsafeonline.org

Cysylltiadau Defnyddiol

Aelodau Grwpiau Gweithredu

Gall nifer o'r sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i amddiffyn a diogelu pobl hŷn yng Nghymru gynnig cymorth a chefnogaeth. Gallwch ddod o hyd i'w manylion cyswllt isod:

Age Cymru

Age Cymru yw'r elusen fwyaf sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Maen nhw'n ymgyrchu, yn ymchwilio ac yn codi arian i adeiladu bywyd gwell i bobl hŷn.

Mae Llinell Gyngor Age Cymru yn cynnig gwybodaeth a chyngor syml, cyfrinachol, diduedd, rhad ac am ddim, ar amrywiaeth o faterion, tra bod y gwasanaeth 'Check in and Chat' sydd newydd gael ei lansio, yn cysylltu pobl dros 70 oed â gwirfoddolwyr sy'n cynnig sicrwydd, yn ateb ymholiadau syml ac yn cysylltu pobl â gwasanaethau a chefnogaeth leol yn ystod pandemig y coronafeirws.

08000 223 444

www.agecymru.org.uk

Hourglass Cymru (Action on Elder Abuse Cymru gynt)

Hourglass Cymru (Action on Elder Abuse Cymru gynt) yw'r unig elusen genedlaethol sy'n ymroddedig i roi'r gorau i niweidio a cham-drin pobl hŷn.

Maen nhw'n cefnogi'r rhai sy'n wynebu (neu mewn perygl) niwed, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth a hyrwyddo dulliau atal effeithiol. Maen nhw'n gweithio'n gyfan gwbl ar herio camdriniaeth pobl hŷn yn ei holl ffurfiau, ym mhob lleoliad, p'un a yw'r cam-drin yn cael ei wneud gan aelodau o'r teulu, partneriaid, rhywun cyfarwydd, gweithwyr proffesiynol cyflogedig neu ddieithriaid. Gall y llinell gymorth bwrpasol gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth emosiynol i bobl hŷn a'r rheini sy'n poeni am berson hŷn.

0808 808 8141

www.wearehourglass.org

Llinell Gymorth Live Fear Free

Mae Live Fear Free yn cynnig cymorth a chyngor 24 awr am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i bobl sy'n wynebu camdriniaeth neu mewn perygl o gael eu cam-drin, a'r rhai sy'n poeni am eraill.

0808 8010 800

<https://gov.wales/live-fear-free>

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn hyrwyddwr annibynnol i bobl hŷn, sy'n gweithio i amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau ac i ddylanwadu ar bolisi ac arferion i wella eu bywydau.

Cysylltwch â Thîm Gwaith Achos y Comisiynydd am gyngor a chefnogaeth ar amrywiaeth o faterion.

03442 640 670

www.olderpeoplewales.com

Cysylltiadau Awdurdodau Lleol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

01495 311556

Tîm Diogelu: 01495 315700

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/emergencies-crime-prevention/coronavirus-covid-19-latest-information/>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

01656 643643

Tîm Diogelu: 01656 642279

<https://www.bridgend.gov.uk/my-council/council-priorities-and-performance/coronavirus-covid-19-latest-information-and-advice/>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

01443 815588

Tîm Diogelu: 0808 100 2500

<https://www.caerphilly.gov.uk/Coronavirus>

Cyngor Caerdydd

029 2087 1071

Tîm Diogelu: 029 2233 0888

<https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/Pages/default.aspx>

Cyngor Sir Gaerfyrddin

01267 234567

Tîm Diogelu: 01267 228944

<http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/2020/02/coronavirus-covid-19-guidance>

Cyngor Sir Ceredigion

01545 570881

Tîm Diogelu: 01545 574000

<https://www.ceredigion.gov.uk/coronavirus>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

01492 574000

Tîm Diogelu: 0300 456 1111

<https://www.conwy.gov.uk/en/Spotlight/Press-Releases/Council-Services-Current-Situation-180320-1000hrs.aspx>

Cyngor Sir Ddinbych

01824 706000

Tîm Diogelu: 0300 4561000

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/community-and-living/coronavirus/coronavirus.aspx>

Cyngor Sir y Fflint

01352 752121

Tîm Diogelu: 03000 858858

<https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Emergency-Planning/Coronavirus-Covid-19-council-services-update.aspx>

Cyngor Gwynedd

01766 771000

Tîm Diogelu: 01766 772577

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Emergencies/Coronavirus-Covid-19-Our-services.aspx>

Cyngor Sir Ynys Môn

01248 750057

Tîm Diogelu: 01248 752752

<https://www.anglesey.gov.uk/en/Residents/Emergencies/Covid-19-Coronavirus-information.aspx>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

01685 725000

Tîm Diogelu: 01685 725000

<https://www.merthyr.gov.uk/coronavirus>

Cyngor Sir Fynwy

01633 644644

Tîm Diogelu:

01600 773041 (Mynwy/Brynbuga/Rhaglan)

01873 735885 (Y Fenni)

01291 635666 (Cas-gwent/Cil-y-coed)

<https://www.monmouthshire.gov.uk/services/planning-for-emergencies/coronavirus/>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

01639 686868

Tîm Diogelu: 01639 685378

<https://www.npt.gov.uk/22404>

Cyngor Dinas Casnewydd

01633 656 656

Tîm Diogelu: 01633 656 656

<http://www.newport.gov.uk/en/Council-Democracy/Coronavirus-COVID-19.aspx>

Cyngor Sir Penfro

01437 764551

Tîm Diogelu: 01437 764551

<https://www.pembrokeshire.gov.uk/advice-on-the-coronavirus>

Cyngor Sir Powys

01597 827460

Tîm Diogelu: 01597 827666

<https://en.powys.gov.uk/coronavirus>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

(Y prif switsfwrdd wedi'i addasu oherwydd Covid-19)

Tîm Diogelu: 01443 425003

[https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/
EmergenciesSafetyandCrime/InformationforResidentsCoronavirus/
CoronavirusCOVID19latestinformationandadvice.aspx](https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/EmergenciesSafetyandCrime/InformationforResidentsCoronavirus/CoronavirusCOVID19latestinformationandadvice.aspx)

Cyngor Dinas a Sir Abertawe

01792 636000

Tîm Diogelu: 01792 636854

<https://www.swansea.gov.uk/coronavirusadvice>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

01495 762200

Tîm Diogelu: 01495 762200

[https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/Homepage-Stories/COVID-19-
Coronavirus.aspx](https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/Homepage-Stories/COVID-19-Coronavirus.aspx)

Cyngor Bro Morgannwg

01446 700111

Tîm Diogelu: 01446 700111

[https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/press_and_communications/
latest_news/Coronavirus/Coronavirus-Updates-2020.aspx](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/press_and_communications/latest_news/Coronavirus/Coronavirus-Updates-2020.aspx)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

01978 292000

Tîm Diogelu: 01978 292066

<https://beta.wrexham.gov.uk/coronavirus>

